

Ysgol Plas Coch  
Fford Stansty  
Wrexham  
LL11 2BU  
Ffon / Ffacs: (01978) 311198  
Email: mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk



Ysgol Plas Coch  
Stansty Road  
Wrexham  
LL11 2BU  
Tel / Fax: (01978) 311198

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Mae'r CRhA wedi cychwyn trefnu'r Ffair Haf am eleni. Mae'r Ffair yn ffordd wych o dynnu cymuned yr ysgol at ei gilydd ar ddiwedd blwyddyn brysur gan annog y plant i gymryd rhan er mwyn codi arian ar gyfer yr ysgol drwy chwarae rhan weithredol wrth gynllunio a rhedeg stondinau dosbarth.

Rydym o hyd yn ddiolchgar i'r bobl hynny sy'n gwirfoddoli eu hamser a'u hegni i helpu i gynnal y ffair ar y diwrnod yn ogystal ac i'r teuluoedd sy'n dod i'r ffair i gefnogi ar y noson.

Yn ystod y flwyddyn yma yn anffodus, rydym wedi gweld dirywiad yn y niferoedd sy'n mynychu cyfarfodydd y CRhA felly mae'r gwaith o drefnu digwyddiadau megis disgos a bingo wedi glanio ar ysgwyddau criw bach iawn o rieni. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad rheiny sy'n gwirfoddoli yn ystod gweithgareddau, ond efo tair o aelodau pwyllgor y CRhA efo swyddi prysur, nid yw'n bosib trefnu gweithgaredd fawr fel Ffair Haf efo cyn lleied o niferoedd

Felly, am y rheswm hynny, rydym yn ysgrifennu at deuluoedd yr ysgol.

Hoffem wybod os oes unrhyw un yn barod i gefnogi'r CRhA unai wrth baratoi ar gyfer y Ffair Haf neu ar y diwrnod a hefyd i redeg stondin luniaeth ar ddiwrnod y Mabolgampau. Heb fwy o gefnogaeth, ni fydd posib i'r cyfleuon yma i godi arain fynd yn eu blaenau.

Dyddiad y Ffair Haf yw Mehefin 28ain. Rydym angen o leiaf 18 o wirfoddolwyr i'n helpu i redeg stondinau megis Tombola, DVDs a theganau, llyfrau, lluniaeth, cacenau, BBQ a dillad ysgol ail law (bydd angen golchi a smwddio'r dillad o flaen llaw). Byddai angen bod ar gael o 1:15pm ymlaen ond gobeithio y bydd digon ar gael i bawb fwynhau'r Ffair yn hytrach na bod yn styc ar un stondin. Rydym yn gobeithio hefyd y bydd pob dosbarth yn gallu cymryd cyfrifoldeb am un stondin yr un fel y gwnaethant llynedd.

Mi yden ni'n dibynu ar gymuned yr ysgol i ddod at ei gilydd i sicrhau fod posib i'r digwyddiadau hyn fynd yn eu blaenau cyn diwedd y tymor. Os ydech ar gael i helpu, a allech o.g.y.dd. ddychwelyd y slip isod i athro dosbarth eich plentyn neu i gysylltu efo'r CRhA drwy ein tudalen Facebook. Fel arall, gellwch hefyd siarad efo Claire Evans neu Emma Newell ar ddiwedd y dydd os gwelwch nhw.

Gyda diolch  
Jen Neal

Osian Jones (Pennaeth)

Cadeirydd  
Ar ran CRhA Ysgol Plas Coch  
[plascochpta@gmail.com](mailto:plascochpta@gmail.com)  
07789840571

Eich enw ..... Dosbarth eich plentyn.....

Gallaf helpu i drefnu'r Ffair Haf

Gallaf helpu ar ddiwrnod y Ffair Haf

Gallaf helpu efo lluniaeth ar ddiwrnodau'r mabolgampau (dyddiadau i'w cadarnhau)

Manylion cyswllt - ebost:.....

Ffon : .....

Bydd eich manylion cyswllt ond yn cael eu defnyddio os ydech yn gwirfoddoli i helpu